

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Penodi Llywydd

Dyddiad Cau: 17:00 02 Ionawr 2019



Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Cynnwys

		Tudalen
Gwneud Cais		3
Atodiad A	Rôl a Chyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ac Amgueddfa Cymru	5
Atodiad B	Swyddogaeth a Chyfrifoldebau'r Bwrdd	7
	Rôl y Llywydd	7
Atodiad C:	Y Broses Ddethol	11

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn cael eich penodi'n Llywydd ar Amgueddfa Cymru. Y Llywydd newydd fydd Cadeirydd Amgueddfa Cymru, a bydd ganddo/ganddi gyfrifoldeb cyffredinol dros Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae'r Llywydd yn atebol yn bersonol i Weinidogion Cymru am y modd yr ymdrinnir â materion Amgueddfa Cymru ac am ymddygiad ei Hymddiriedolwyr. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi rhagor o fanylion am fanyleb y person; am rôl a chyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ac Amgueddfa Cymru; ac am y broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi gwblhau ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i:

- 1) roi amlinelliad o'ch diddordeb yn y swydd
- 2) ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person, a
- 3) roi amlinelliad o sut y gallech gyfrannu at waith Amgueddfa Cymru.

Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf (a rennir yn 'arbenigedd hanfodol' a 'sgiliau personol hanfodol'), ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad chi at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwnnw.

Curriculum Vitae

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:

17:00 02 Ionawr 2019

Llunio rhestr fer:

Canol Ionawr 2019

Cyfweliadau:

Canol Chwefror - Dechau Mawrth 2019

Mae swydd y Llywydd yn un o nifer o gyfleoedd sy'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd gan Amgueddfa Cymru. Wrth asesu ceisiadau, gallai'r panel ystyried a fyddai ymgeiswyr yn fwy addas ar gyfer swydd Ymddiriedolwr. Byddai pob penderfyniad yn cael ei anfon at yr ymgeiswyr er mwyn iddynt eu cymeradwyo.

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac mae'n croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gyfle ichi nodi unrhyw anghenion neu offer penodol y gallai fod eu hangen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Llywydd Amgueddfa Cymru, cysylltwch â: Elaine Cabuts (e-bost: elaine.cabuts@museumwales.ac.uk, rhif ffôn: 02920 573204)

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y swydd hon, anfonwch neges e-bost at: PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Atodiad A

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rolau a chyfrifoldebau Amgueddfa Cymru

Cyflwyniad

Mae Amgueddfa Cymru yn un o brif sefydliadau diwylliannol a chenedlaethol Cymru. Mae 1.8 miliwn o bobl yn ymweld ag Amgueddfa Cymru bob blwyddyn.

Y Cefndir

Wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol yn 1907, Amgueddfa Cymru yw un o'r amgueddfeydd mwyaf yn y Deyrnas Unedig, a'r sefydliad diwylliannol pwysicaf yng Nghymru. Mae'r Amgueddfa yn geidwad casgliadau amrywiol a phwysig yn rhyngwladol, ac yn arwain ar addysg a chyfraniad diwylliannol.

Mae Amgueddfa Cymru yn gyfrifol am saith o amgueddfeydd cenedlaethol Cymru: Amgueddfa Genedlaethol: Caerdydd; Amgueddfa Werin Cymru: Sain Ffagan; Y Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru ym Mlaenafon; Amgueddfa Wlân Cymru yn Nhrefach, Felindre; Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerleon; Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe. Mae gan Amgueddfa Cymru Ganolfan Casgliadau Cenedlaethol hefyd ger Caerdydd. Mae dros 5 miliwn o eitemau unigol yn ein casgliadau, yn cynnwys gwaith celf a dylunio, hanes ac archaeoleg, a'r gwyddorau naturiol.

Caiff Amgueddfa Cymru ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, fel Corff a Noddir gan y Llywodraeth, ac mae ganddi Fwrdd o Ymddiriedolwyr sydd â'r swyddogaeth o bennu cyfeiriad strategol y sefydliad, a sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu rheoli yn iawn. Cyfanswm Cymorth Grant Amgueddfa Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2017-18 oedd £22 miliwn. Mae'n cyflogi dros 600 aelod staff.

Gweledigaeth Amgueddfa Cymru "*Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau*"

Ein nod yw defnyddio'n hamgueddfeydd a'n casgliadau i ysbrydoli pobl i feithrin ymdeimlad o lesiant ac o hunaniaeth, i fynd ati i ddarganfod, i fwynhau ac i ddysgu'n ddwyieithog, ac i ddeall lle Cymru yn y byd ehangach.

Mae ein gwaith yn seiliedig ar yr egwyddor bod diwylliant yn cael ei greu gan bobl a chymunedau. Mae ein casgliadau ac adnoddau eraill yn dod yn rhannol o'r gymdeithas yr ydym yn rhan ohoni, ac yn cael eu hadnewyddu'n barhaus trwy ein gwaith gyda'r cyhoedd. Mae ein casgliadau gwyddorau naturiol yn cael effaith ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth Cymru ac yn cymharu â chasgliadau byd-eang. Rydym yn atebol i'r genedl yr ydym yn ei gwasanaethu am ein defnydd o'r adnoddau hyn.

Mae gan yr Amgueddfa gynlluniau partneriaeth pwysig gydag amgueddfeydd ac orielau lleol ym mhob cwr o Gymru, ac eir ati i ddatblygu arddangosfeydd sy'n manteisio ar y casgliadau cenedlaethol sydd gan yr Amgueddfa.

Mae'r Weledigaeth yn cael ei chefnogi gan yr ymrwymiadau canlynol:

- Ffynnu
- Profi
- Dysgu
- Cyfrannu

Atodiad B

Rôl a Chyfrifoldebau'r Bwrdd

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yw corff llywodraethu Amgueddfa Cymru ac mae'n dal casgliadau'r Amgueddfa mewn ymddiriedolaeth ar ran pobl Cymru. Rôl y Bwrdd yw arwain yn effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol. Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus ac yn cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'n monitro perfformiad yn unol â nodau, amcanion a thargedau perfformiad Amgueddfa Cymru.

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen gofrestrdedig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Ymddiriedolwyr rwymedigaethau i Lywodraeth Cymru ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar hyn o bryd, mae Amgueddfa Cymru yn derbyn tua 80% o'i chyllid blynyddol (rhyw £22 miliwn o gyllid refeniw yn 2018-19) oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ffurf Cymorth Grant.

Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr yn gyntaf gefnogi'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i weithredu Gweledigaeth yr Amgueddfa o *'Ysbrydoli Pobl; Newid Bywydau'*. Mae'n rhaid i Ymddiriedolwyr hefyd:

- fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd a pharatoi'n drylwyr ar eu cyfer;
- wasanaethu ar is-bwyllgorau;
- gefnogi rheolwyr a staff yr Amgueddfa yn eu gwaith;
- gynrychioli'r Amgueddfa mewn digwyddiadau cyhoeddus;
- hyrwyddo proffil yr Amgueddfa;
- roi eu profiad a'u harbenigedd i'r Amgueddfa;
- hwyluso'r cysylltiadau gyda rhan-ddeiliaid yr Amgueddfa; a
- chyfrannu at y gwaith o lunio polisiau a strategaethau a phennu blaenoriaethau i fodloni amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Rôl y Llywydd

Byddwch yn atebol i'r Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth am berfformiad Amgueddfa Cymru a'r hyn y mae'n ei gyflawni. Mae datblygu a chynnal perthynas agos gyda'r Gweinidog ac aelodau allweddol o Lywodraeth Cymru yn rhan hollbwysig o rôl y Llywydd.

Mae angen i'r Llywydd fod yn unigolyn o statws a gweledigaeth sy'n gallu arwain sefydliad cenedlaethol mewn rôl anweithredol ar y lefel uwch, ac yn eiriolwr dros yr Amgueddfa gyda'n prif ran-ddeiliaid.

Arbenigedd Hanfodol:

1. Arweinyddiaeth

- Bydd yn arfer arweinyddiaeth gadarn o'r Bwrdd fel Cadeirydd Amgueddfa Cymru.
- Bydd ganddo/ganddi gyfrifoldeb cyffredinol dros Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac yn atebol yn bersonol i Weinidogion Cymru am ymddygiad Amgueddfa Cymru ac am ymddygiad ei Hymddiriedolwyr.
- Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn helpu i benderfynu ar bolisiau, strategaethau a blaenoriaethau o ran gweithgareddau craidd yr Amgueddfa.

- Bydd yn dangos ymrwymiad a brwdfrydedd dros waith yr Amgueddfa a'r sector ddiwylliannol yn gyffredinol, gan gynnwys gwerthfawrogiad cyffredinol o'r pynciau sy'n cael eu cynnwys yng nghasgliadau'r Amgueddfa.
- Bydd yn dangos ymrwymiad i faterion cydraddoldeb a herio arferion gwahaniaethol.
- Bydd yn cyfrannu at greu incwm a gweithgareddau codi arian.

2. Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol

- Bydd yn cynrychioli Amgueddfa Cymru ac yn siarad drosti. Mae'n bosibl y bydd disgwyl i'r Llywydd gynrychioli Amgueddfa Cymru yn ystod ymweliadau gan y teulu brenhinol, llysgenhadon a phobl flaenllaw eraill ym myd cyhoeddus, a phan fydd arddangosfeydd a digwyddiadau'n cael eu hagar.
- Bydd yn gallu rheoli cysylltiadau â rhanddeiliaid yn effeithiol, gan hwyluso a hyrwyddo cysylltiadau gyda Chyfeillion a Noddwyr Amgueddfa Cymru.
- Bydd yn defnyddio'r cysylltiadau cryf sydd ganddo/ganddi yng Nghymru er budd Amgueddfa Cymru.

3. Llywodraethu

- Bydd yn gweithio'n effeithiol gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Uwch-dîm Rheoli ac Ymddiriedolwyr i sicrhau cymaint o gysylltiad â phosib.
- Bydd yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Bydd yn aelod o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio.
- Bydd yn cynrychioli Amgueddfa Cymru mewn prosesau penodi a gynhelir ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddethol Ymddiriedolwyr newydd, a bydd yn sicrhau bod y Bwrdd yn addas i'r diben; bydd yn sicrhau bod Ymddiriedolwyr yn dilyn proses gynefino ac yn derbynll hyfforddiant, bod eu perfformiad yn cael ei asesu a'u bod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu o dan y Siarter Frenhinol, y Ddeddf Elusennau, Egwyddorion Nolan a Chod Ymddygiad y Bwrdd.
- Bydd yn cadeirio pob un o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau (sy'n goruchwyllo'r gwaith o benodi Ymddiriedolwyr a staff gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol).
- Bydd yn mynychu cyfarfod ffurfiol gyda'r Gweinidog ddwywaith y flwyddyn i drafod sut y mae'r Amgueddfa'n dod yn ei blaen o ran bodloni'r gofynion a bennir yn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol y Gweinidog.
- Bydd yn sicrhau bod Ymddiriedolwyr yn cael eu harfarnu o'r cyfathrebu rhwng Amgueddfa Cymru a Gweinidogion Cymru.
- Bydd yn ymrwymo i 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan'
<https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life>

4. Perthynas gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol

- Bydd yn sefydlu a meithrin perthynas waith gref, effeithiol a chefnogol gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gan gynnig cymorth a chynngor ond gan barchu ei hawl ef i weithredu;
- Bydd yn helpu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i wireddu'r weledigaeth yn '*Ysbrydoli Pobl: Newid Bywydau*'.

Meini Prawf Hanfodol:

- Ymrwymiad i werthoedd a gweledigaeth Amgueddfa Cymru, gan werthfawrogi ei swyddogaeth a'i bwrpas fel sefydliad cenedlaethol yng Nghymru; gan gynnwys y cyd-destun diwylliannol, dysgu, iechyd a llesiant, economaidd a chymdeithasol-wleidyddol y mae'n gweithredu o fewn iddo; a dealltwriaeth o'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Tystiolaeth o gyfathrebu rhyngpersonol cryf, a sgiliau rheoli rhanddeiliaid, gan gynnwys sgiliau llysgenhadol.
- Ymrwymiad i gynyddu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb, gan nodi profiad perthnasol i ddatblygu Bwrdd cynhwysol ac amrywiol, yn ogystal â gwella swyddogaeth yr Amgueddfa wrth wasanaethu cymunedau a rhanbarthau amrywiol Cymru.
- Sgiliau arwain cryf a'r gallu i gefnogi ac i herio sefydliad proffil uchel mewn ffordd effeithiol.
- Dangos y gallu i feddwl yn strategol a dangos doethineb masnachol i gefnogi llywodraethu da a gweithgarwch creu incwm (gan gynnwys codi arian).
- Profiad o weithio mewn sefydliad cymhleth ac amlddisgyblaethol.

Y Gymraeg

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Mae'r Amgueddfa yn sefydliad dwyieithog ac yn rhagweithiol wrth gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'n ofynnol i'r Amgueddfa gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel a bennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.

Polisi prif noddwr yr Amgueddfa, Llywodraeth Cymru, yw cefnogi'r iaith Gymraeg, ac mae ei Strategaeth ar gyfer y Gymraeg (Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg) yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Ymrwymiad Amser

Ar gyfartaledd, 2 ddiwrnod yr wythnos. Mae hynny'n cynnwys mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau.

Lleoliad

Bydd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Llywydd yn ardal Caerdydd fel arfer, ond bydd gofyn iddo/iddi ymweld ag Amgueddfeydd Cenedlaethol eraill a lleoliadau eraill. Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr 4 gwaith y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y De.

Cyfnod yn y Swydd

Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon fydd yn penodi ar ran Llywodraeth Cymru am gyfnod o bedair blynedd, i ddechrau ar **1 Ebrill 2019**.

Taliad Cydnabyddiaeth

Cynigir cyflog o **£35,182.80** y flwyddyn ar gyfer y swydd. Ni fydd unrhyw daliadau bonws. Ni fydd y Llywydd yn aelod o Gynllun Pensiwn yr Amgueddfa. Mae gan aelodau'r Bwrdd hawl i hawlio costau teithio a chostau eraill o fewn y cyfraddau y cytunwyd arnynt.

Cymorth ar gyfer Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn arbennig, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn wybyddus ar ôl eu penodi.

Mae gwybodaeth yn Siarter Frenhinol Amgueddfa Cymru sy'n esbonio a yw'r Ymddiriedolwyr cyfredol neu gyn Ymddiriedolwyr yn gymwys i wneud cais am swyddi ar y Bwrdd. <https://amgueddfa.cymru/siarter-a-statudau/>

Ni chaiff Ymddiriedolwyr wasanaethu ar y Bwrdd am fwy nag 8 mlynedd yn olynol yn yr un rôl, neu gyfanswm o 12 mlynedd yn olynol (mewn unrhyw gyfuniad o rolau gwahanol fel Ymddiriedolwr ac fel Swyddog; e.e. Trysorydd, Is-lywydd neu Lywydd). Gellir penodi pobl a arferai fod yn Ymddiriedolwyr ar yr amod bod mwy na pedair blynedd wedi mynd heibio ers iddynt fod yn Ymddiriedolwyr o'r blaen.

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi y bydd bod yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2015. <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Llywydd Amgueddfa Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl yn Amgueddfa Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd gofyn ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arddel safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus; mae'r ddogfen honno i'w gweld yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Atodiad C

Y Broses Ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol o dan gadeiryddiaeth Jason Thomas (Llywodraeth Cymru). Nid yw gweddill aelodau'r panel, gan gynnwys aelod panel annibynnol uwch, wedi eu cadarnhau eto. Bydd ymgeiswyr fydd wedi'u rhoi ar y rhestr fer yn cael gwybod pwy fydd ar y panel cyn y cyfweliad.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Yr unig ymgeiswyr fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad fydd yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos eu bod yn bodloni orau y meini prawf ym manyleb y person. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yng Nghaerdydd .

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Caiff y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwloch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Llywydd ar Amgueddfa Cymru, a bydd y llythyr hwnnw'n cadarnhau telerau'r penodiad hefyd.

Os na fyddwch yn llwyddiannus ar ôl cael cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech i ymgeisio am rolau a bod rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O'r herwydd, bydd y llythyr yn rhoi manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

Ymholiadau

Am ymholiadau ynghylch eich cais neu i wneud cŵyn cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru